Adroddiad Tasglu'r Cymoedd ar dwf busnesau a busnesau newydd

| | |
|---|---|
| **Maes blaenoriaeth:** | Twf busnesau a busnesau newydd - swyddi o ansawdd da a'r sgiliau perthnasol |
| **Arweinydd polisi yn nhîm y Tasglu** | Maureen Howell |
| **Cam gweithredu – fel y nodwyd yn "Ein Cymoedd, Ein Dyfodol"** | JS10 - Alinio'n well y cymorth busnes rhanbarthol sydd ar gael i fusnesau newydd a busnesau sy'n bodoli eisoes, a darparu cymorth i ddarpar entrepreneuriaid. Gwella 25% ar y broses o droi ymholiadau cychwynnol yn gefnogaeth weithredol sy'n helpu i greu busnesau newydd.<br><br>JS11 - Ar gyfer busnesau yn y Cymoedd sydd â'r potensial twf mwyaf, bydd mynediad at becyn integredig o gymorth ar gyfer recriwtio, hyfforddi a datblygu'r busnes er mwyn creu swyddi, cynyddu lefelau sgiliau'r staff presennol a rhoi hwb i gynhyrchiant. |

| Cerrig milltir | Cynnydd |
|---|---|
| **JS10**<br>**Mawrth 2018** - Cytundeb rhwng Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Busnes Cymru ynglŷn ag alinio cymorth rhanbarthol, gan gynnwys un pwynt mynediad a chymorth busnes cyson. Rhannu'r hyn a ddysgir â Dinas Ranbarth Bae Abertawe. | Cytunodd Cabinet Rhanbarthol Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn derfynol ar eu cynllun busnes 5 mlynedd ar ddiwedd Chwefror. Mae'n cynnwys ymrwymiad i integreiddio ac alinio gwasanaethau cymorth busnes ar draws y rhanbarth. Mae gwaith yn parhau i gytuno ar drefniadau cydweithio â chydweithwyr y Fargen Ddinesig wrth symud ymlaen.<br>Cytunwyd ar y ffordd ymlaen â'r Cynghorydd Andrew Morgan, yn ei rôl fel Cadeirydd Cabinet Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Aeth Andrew Diplock, swyddogion Llywodraeth Cymru a Banc Datblygu Cymru i gyfarfod o'r Swyddogion Gweithredol ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar 15 Mehefin 2018 i drafod cynlluniau i gydweithio ar gymorth busnes yn Ne-ddwyrain Cymru. Yn dilyn hyn, ceir trafodaeth yng nghyfarfod o Gabinet Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i gytuno ar drefniadau ar gyfer cydweithio. |
| **JS10**<br>**Mehefin 2018** - Cyflwyno cymorth busnes wedi'i alinio ar lefel ranbarthol. | Cyflwynwyd cynnig o gymorth sy'n benodol ar gyfer y Cymoedd mewn digwyddiad Creu Sbarc, gan gynnwys dosbarthiadau meistr ac ysgol cymorth busnes symudol ar gyfer y Cymoedd sy'n canolbwyntio ar dwf busnesau. Nododd busnesau bach a chanolig bod angen meddylwyr entrepreneuraidd i godi dyheadau. Cynhaliodd yr Athro Schrage o Ysgol Sloan MIT y dosbarth meistr cyntaf i ganolbwyntio ar arloesi ym mis Mehefin. Mae sesiynau 'blasu' ar gyfer busnesau twf yn dechrau cael eu cynnal fel rhan o ddigwyddiadau Busnes Cymru Tasglu'r Cymoedd. |
| **JS10**<br>**Mehefin 2018** - Busnes Cymru a Gyrfa Cymru i dreialu gwasanaeth wedi'i alinio i ymgysylltu â chyflogwyr. | Gweithgareddau treialu'n cael eu datblygu gan dîm Sgiliau ESNR a Gyrfa Cymru i alinio cymorth busnes a chymorth gyrfaoedd. Y nod yw rhannu'r wybodaeth a gesglir (drwy weithgarwch diagnostig a gwaith cynghori parhaus) i baru pobl leol sy'n chwilio am swyddi gyda busnesau bach a chanolig sy'n recriwtio. Gwnaed cynnydd o ran datblygu |

| | |
|---|---|
| | gwefan, gan gynnwys rhyngwyneb digidol, a chysylltu cynigion Gyrfa Cymru a Busnes Cymru. |
| **JS10**<br>**Gorffennaf 2018** - Ehangu'r defnydd o fodelau rôl sy'n entrepreneuriaid er mwyn codi dyheadau busnesau. | Gwaith yn mynd rhagddo i ganfod modelau rôl yn y Cymoedd o'r portffolio cymorth presennol er mwyn eu hannog i ddod yn fodelau rôl/mentoriaid ar gyfer gweithgarwch cymorth sy'n benodol ar gyfer y Cymoedd. Ceir 75 o fodelau rôl ar hyn o bryd a'r targed a osodwyd yw 100. Cynhaliwyd cyfarfod i drafod y Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid ar 14 Mehefin 2018, gyda chynrychiolwyr o bob rhanddeiliad lleol yn bresennol (Llywodraeth Cymru, sefydliadau Addysg Uwch/Addysg Bellach, y sector preifat a modelau rôl Syniadau Mawr Cymru). |
| **JS10**<br>**Parhaus** - Manteisio ar arferion gorau'r Rhaglen Cyflymu Entrepreneuriaeth Ranbarthol. Gweithio gyda Creu Sbarc er mwyn helpu i ddwyn ynghyd rhwydwaith o bobl a sefydliadau sy'n canolbwyntio ar ddatblygu entrepreneuriaeth sy'n cael ei sbarduno gan weithgarwch arloesol. | Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng arweinwyr y Tasglu, Busnes Cymru a Creu Sbarc. Gwaith cychwynnol y cytunwyd arno'n cynnwys: mapio canolfannau/unedau hybu/sbardunwyr ar draws ardaloedd y Cymoedd; ailddefnyddio cynnwys presennol, os ar gael, ar gyfer astudiaethau achos; nodi/mapio busnesau corfforaethol ar draws ardaloedd y Cymoedd; archwilio'r posibilrwydd o ehangu modelau rôl Syniadau Mawr Cymru i gynnwys cynrychiolwyr o fusnesau corfforaethol yn ardal y Tasglu. |
| | |
| **JS11**<br>**Rhagfyr 2017** - Cynnal digwyddiad Creu Sbarc yn y Cymoedd a lansio menter twf Cymoedd y De. | Cynhaliwyd digwyddiad Creu Sbarc y Cymoedd ym Merthyr Tudful ar 16 Mai 2018 ac roedd nifer dda'n bresennol o blith y pum grŵp o randdeiliaid. Gwnaeth y digwyddiad godi ymwybyddiaeth o fenter Creu Sbarc, hyrwyddo prif egwyddor y pum grŵp o randdeiliaid o ran entrepreneuriaeth a ysgogir gan arloesi a'r economi, a dathlu llwyddiant busnesau ar draws cymunedau'r Cymoedd. Cytunodd y rheini a oedd yn bresennol ar yr amcanion cymorth busnes arfaethedig ar gyfer y Cymoedd a amlinellwyd gan y Tasglu. |
| **JS11**<br>**Rhagfyr 2017** - Nodi'r fforwm neu'r cyfrwng mwyaf priodol i sefydlu digwyddiad blynyddol i ddathlu busnesau'r Cymoedd. | Cefnogodd Busnes Cymru ddigwyddiad Gwobrau Busnes Blaenau Gwent yn 2018. Bydd enillwyr y gwobrau hyn a busnesau llwyddiannus eraill yn y Cymoedd yn cael eu datblygu'n astudiaethau achos/modelau rôl.<br>Fel rhan o ddathliadau 20 mlynedd Gwobrau FG50 a gwaith y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De, cyhoeddwyd y bydd y wobr '*Outstanding Valleys Growth Business Award*' yn cael ei chyflwyno a noddir gan y Tasglu a Llywodraeth Cymru. |
| **JS11**<br>**Mawrth 2018** - Gweithio gyda'r Bwrdd Gwaith Teg er mwyn sicrhau bod egwyddorion gwaith teg wedi'u cynnwys yn y pecyn cymorth. | Mae gwaith teg yn rhan o'r Contract Economaidd a weithredir drwy'r Cynllun Gweithredu Economaidd. Trefnwyd sesiwn friffio ar gyfer cynghorwyr Busnes Cymru ar y Contract Economaidd sy'n cynnwys egwyddorion gwaith teg ac a fydd yn cael ei weithredu ar draws gwasanaethau Busnes Cymru. |
| **JS11**<br>**Mawrth 2018** - Nodi'r entrepreneuriaid | Gan weithio ochr yn ochr â chydweithwyr ym maes iechyd, nodwyd a thargedwyd dros 100 o fusnesau bach a chanolig |

| | |
|---|---|
| a'r busnesau presennol a fyddai'n cael y budd mwyaf o becyn cymorth gwell, gan arwain at greu 2,000 o swyddi yng Nghymoedd y De. | yn y sector gofal yng Nghastell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful. Aeth y busnesau bach a chanolig hyn i ddigwyddiad gwella busnes yn benodol ar gyfer y sector gofal ym mis Mawrth. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu pecyn cymorth penodol a allai gael ei gyflwyno'n ehangach. Caiff digwyddiad Creu Sbarc ei ddefnyddio fel sail i nodi cohort ehangach o gwmnïau yn y Cymoedd y gellir gweithio â nhw a darparu cymorth busnes pwrpasol iddynt drwy Busnes Cymru. |
| **JS11**<br>**Medi 2018** - Cynnal trafodaethau â'r cwmnïau sydd â'r potensial mwyaf i dyfu a dechrau darparu pecynnau pwrpasol er mwyn hybu twf busnes. | Mae Busnes Cymru'n targedu ac yn gweithio gyda busnesau bach a chanolig (drwy lefel 4 a 5 o'r Rhaglen Cyflymu Twf) er mwyn darparu cymorth sy'n unigryw i'r rhanbarth. |

**Risgiau**

Mae angen sicrhau cydgysylltiad â bargeinion dinesig er mwyn osgoi dyblygu a gwneud y mwyaf o'r adnoddau. Mae hyn yn cynnwys darparu llwybr clir sy'n dryloyw, yn gyson ac yn hygyrch i fusnesau. Ceir pryderon y gallai strwythurau tebyg gael eu creu sy'n cystadlu â'i gilydd.

Bydd angen diffiniad clir ar gyfer y busnesau a'r unigolion gorau er mwyn canolbwyntio ar gyfleoedd i greu swyddi. Gallai fod diffyg dealltwriaeth ymhlith busnesau o'r hyn y bydd y pecyn ychwanegol yn ei ddarparu iddynt.

Gallai'r cymorth a ddarperir i'r busnesau a'r unigolion gorau fod yn annigonol oherwydd adnoddau a chapasiti cyfyngedig, ac mae angen manteision pendant i fusnesau er mwyn hybu twf.

| | |
|---|---|
| **Adroddwyd gan:** | Maureen Howell ac Andrew Diplock - 20.06.18 |